Cardiff and Vale University Health Board
**Unpaid Carers Information Service**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Di-dâ**

# Materion Cyfreithiol

## Gofalwyr sy'n Gweithio

O bryd i'w gilydd efallai y bydd gofalwr angen cymryd cyfrifoldeb dros faterion ariannol a chyfreithiol y person y maen nhw'n gofalu amdano. Gall cynllunio ymlaen llaw arbed amser, ymdrech ac arian. Rhai pethau i'w hystyried yw:

- Buddion – gall gofalwyr ddos yn 'asiant' neu'n 'benodai'. Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ewch i wefan www.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth
- Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu – mae'n bosib y gellir newid cyfrifon yn rhai ar y cyd neu gymryd 'mandad trydydd parti'. Cysylltwch â'r banc neu'r gymdeithas adeiladu perthnasol.
- Atwrneiaeth Arhosol – Gweithdrefn gyfreithiol yw hon sy'n galluogi pobl i roi cyfrifoldeb i rywun arall i wneud penderfyniadau am eich materion ariannol ac iechyd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddfa Warchodaeth Gyhoeddus ar 0300 456 0300 neu ewch i www.gov.uk.

## Gwneud Ewyllys

I rai pobl, gall y syniad o ysgrifennu ewyllys beri gofid, am nad ydynt am feddwl beth fydd yn digwydd pan fyddan nhw neu'r person y maent yn gofalu amdano yn marw. Mae ewyllys yn eich galluogi chi i restru yr hyn y dymunwch ei weld yn digwydd pan fyddwch yn marw a sicrhau y dilynir eich dymuniadau a gallwch ddewis pwy i ddelio â phethau ar eich rhan.

Os byddwch yn ysgrifennu eich ewyllys eich hun, rhaid i chi sicrhau ei fod yn cael ei lofnodi, ei ddyddio a'i dystio'n gywir neu fel arall bydd yn annilys. Bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn helpu i lunio ewyllysiau ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio ar sail ffi sefydlog fel y byddwch yn gwybod y gost cyn bwrw ymlaen.

Diweddaru 2023

## Cyngor Cyfreithiol

Mae cyngor cyfreithiol am ddim ar gael gan sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth sydd â llinell gymorth 03444 772020 neu ewch i’w gwefan https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

## Galluedd Meddyliol

Ni all rhai pobl wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gan gynnwys dewisiadau parthed eu gofal. Gall demensia, anaf i’r ymennydd, salwch meddyliol a chorfforol difrifol neu gamddefnyddio sylweddau beri i rywun fod yn ddiffygiol o ran eu galluedd meddyliol. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhoi’r pwyslais ar gefnogi a galluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Am fwy o wybodaeth ewch i www.legislation.gov.uk.

Cardiff and Vale University Health Board
**Unpaid Carers Information Service**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Di-dâ**

# Rydym yma i helpu



## Suzie Becquer-Moreno
**Arweinydd Gofalwyr**



## Sarah Davies
**Rheolwr Canolfan Wybodaeth a Chymorth**

Ffôn: 029 21845692

Ebost: pe.cav@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Patient Experience
Profiad y Claf